RWE npower renewables

Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol (DoYC)

Fferm Wynt yn y Môr Atlantic Array

Mae'r Datganiad hwn o Ymgynghoriad Cymunedol yn egluro sut y gallwch wneud sylwadau ar gynigion am gais ar gyfer gorchymyn cydsynio datblygu i'w gyflwyno gan Channel Energy Limited, is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr RWE Npower Renewables Ltd (RWE NRL), i ddatblygu a gweithredu fferm wynt yn y môr ym Môr Hafren.

Mae eich sylwadau chi ar y cynigion yn bwysig. Byddant yn cael eu hystyried wrth baratoi a mireinio'r cais ar gyfer Atlantic Array, cyn ei gyflwyno i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn 2012. Fe fydd cyfnod o ymgynghori a chyfnod o ymgynghori swyddogol. Bydd dyddiadau dechrau a gorffen yr ymgynghoriad, yn ogystal â lleoliadau'r digwyddiadau a manylion am wybodaeth bellach yn cael eu hysbysebu cyn i'r ymgynghoriad ddechrau.

1. Crynodeb o'r Prosiect

Mae RWE NRL yn bwriadu cyflwyno cais yn 2012 i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, neu gorff dilynol, i ddatblygu fferm wynt newydd ym Môr Hafren i'w galw'n Fferm Wynt yn y Môr Atlantic Array. Mae'r adroddiad cwmpasu ar Asesiad o Effaith Amgylcheddol arfaethedig y prosiect eisoes wedi ei gyhoeddi ac mae'n cynnwys cynlluniau o gydrannau'r prosiect yn y môr ac ar y tir. Gellir dod o hyd i hwn ar wefan Atlantic Array; www.npower-renewables.com/atlanticarray

Yn y môr

Mae ardal safle fferm wynt yn y môr arfaethedig Atlantic Array o fewn Môr Hafren. Mae llwybr y cebl allforio'n ymestyn o ymyl y fferm wynt i'r lanfa yng ngogledd Dyfnaint yn cludo'r pŵer a gynhyrchir gan y fferm wynt i'r lan. Mae'r safle yn y môr, ar wahân i'r coridor allforio, yn ymestyn dros ryw 500 km2 mewn dŵr o ddyfnder cyfartalog o 45m. Ar y pwynt agosaf at y lan fe fyddai tua 14 km o arfordir gogledd Dyfnaint, rhyw 16 km o arfordir de Cymru a rhyw 13km i'r gogledd o ynys Lundy. Gan ei bod yn gynnar yn y broses ddatblygu nid yw maint megawat y tyrbinau wedi ei benderfynu eto, ond disgwylir y byddai prosiect arfaethedig Atlantic Array'n cynnwys rhwng 188 (8 MW) a 416 (3.6 MW) o dyrbinau gyda chyfanswm gallu cynhyrchu o ryw 1,500 megawat.

Ar y tir

Yn ogystal ag elfennau yn y môr y cynllun, bydd Atlantic Array hefyd angen datblygiad cysylltiedig ar y tir, yn cynnwys seilwaith trydanol i alluogi trosglwyddo'r trydan a gynhyrchir gan y tyrbinau gwynt yn y môr i system drawsgludo'r Grid Cenedlaethol. Mae'r datblygiad yn y môr yn cynnwys safle'r lanfa a llwybr y cebl daearol fydd yn mynd o leoliad y lanfa i'r pwynt cysylltu â'r grid, sydd wedi ei gytuno, yn Alverdiscott. Is-orsaf 400kV a geir yno ar hyn o bryd, tua 5km i'r de o Bideford, yng ngogledd Dyfnaint. Bydd yr is-orsaf yn cael ei hehangu a'i hail-ddatblygu i letya'r offer sydd ei angen i drosglwyddo'r foltedd sy'n dod i mewn o'r fferm wynt i'r foltedd sy'n cael ei ddosbarthu gan y Grid Cenedlaethol.

2. Crynodeb o swyddogaeth y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (CCS)

Caiff y cais hwn ei gyflwyno i'r Comisiwn Cyflwyno Seilwaith (CCS) (neu ei olynydd); corff annibynnol sydd bellach yn penderfynu ar geisiadau am brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Ceir manylion llawn am y CCS ar ei wefan:- http://infrastructure.independent.gov.uk/. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y CCS yn gwneud ei argymhellion yn unol â Datganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n cael eu cyhoeddi gan y llywodraeth oni bai bod rhesymau penodol am beidio â gwneud hynny. Yn achos y prosiect hwn, y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol yw'r Datganiad cyffredinol ar ynni NPS (EN-1) a'r Datganiad ar ynni adnewyddadwy NPS (EN-3). Unwaith i'r CCS (neu ei olynydd) gwblhau ei archwiliad, bydd yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn penderfynu ar y cais.

Mae'r CCS yn pwysleisio'n gryf bod angen ymrwymo'n gynnar gyda chymunedau lleol er mwyn iddynt gael lleisio barn a helpu i lunio cynigion a fydd yn effeithio ar eu hardal nhw.

Mae'r Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol hwn yn egluro sut y byddwn yn ymgynghori gyda'r gymuned. Bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r CCS fel rhan o'r cais. Bydd yn nodi'r canlyniadau ac yn egluro sut y mae'r cynigion terfynol wedi rhoi ystyriaeth i sylwadau.

3. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Bydd y cais hwn hefyd yn dod o fewn cwmpas y Gyfarwyddiaeth Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, sy'n golygu y bydd Datganiad Amgylcheddol yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r cais. Mae Datganiad Amgylcheddol yn nodi asesiad o effaith arwyddocaol tebygol prosiect ar yr amgylchedd, ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig.

Bydd ymgynghoriad ar y Datganiad Amgylcheddol yn ystod y cyfnod ymgynghori swyddogol a bydd gan awdurdodau statudol fel Cynghorau Sir, Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru gyfle i ymateb yn ffurfiol i'n cais yn ystod y cyfnod hwn. Bydd copïau o'r Datganiad Amgylcheddol ar gael mewn amryw o leoliadau a bydd crynodeb Annhechnegol yn cael ei gynhyrchu a bydd ar gael i bawb.

4. Amcanion

Amcanion ymgynghoriad cymunedol Atlantic Array yw:

- Rhoi cyfle i bobl leol gynnig syniadau a chwarae rhan yn datblygu cynigion mewn meysydd y maent yn gallu dylanwadu arnynt;
- Rhoi gwybod i bob sector o'r cymunedau perthnasol am bob agwedd o'r prosiect;
- Creu proses sy'n galluogi pobl leol i gynnig sylwadau ar gynigion swyddogol;
- Rhoi cyfle i bobl leol gwrdd â staff RWE NRL sy'n ymwneud â'r datblygiad;
- Ymateb i bobl leol.

5. Y drefn ar gyfer ymgynghori

Cynigir bod yr ymgynghoriad a'r ymrwymiad cymunedol ar gyfer prosiect Atlantic Array yn cael eu cynnal mewn un cyfnod unigol. Bydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar elfennau ar y tir y prosiect yn cynnwys glanfa, llwybr cebl ac is-orsaf a'r elfennau yn y môr yn cynnwys llwybrau'r ceblau, trefn y tyrbinau a'r holl effeithiau cysylltiedig.

- **Ymgynghori – llwybr cebl ar y tir**
  Yn dilyn adolygiad amgylcheddol a pheirianegol tri dewis o lwybrau posib bydd RWE NRL yn ymgynghori gyda'r cyhoedd ar ddewis llwybr a ffafrir. Bydd y gymuned leol yn derbyn gwybodaeth fanwl am y dewis a ffafrir yn cynnwys cynigion i ehangu'r is-orsaf ynghyd â'u heffeithiau posib, rhai cadarnhaol a negyddol, a gofynnir iddynt gynnig sylwadau ar y cynigion.
- **Ymgynghori – yn y môr**
  Bydd elfennau yn y môr y prosiect yn cael eu nodi'n defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol yn cynnwys unrhyw ddewisiadau lliniaru, yn yr un modd ag ar y tir. Bydd yr ymgynghoriad yn cyd-fynd gyda chwblhau'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar gyfer yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth i'r cyhoedd trwy gyfrwng nifer o ddulliau cyfathrebu ar wahanol agweddau'r prosiect.

6. Y dulliau ymgynghori

Bydd amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu'n cael eu defnyddio trwy gydol y broses cyn gwneud cais i ymrwymo gyda chymunedau. Ceir rhestr o'r rhain isod ac fe'u cynigir fel y lefel lleiaf o ymrwymiad. Bydd RWE NRL yn dal i dderbyn awgrymiadau ar y ffordd orau i gyfathrebu gyda'r gymuned leol trwy gydol y broses cyn gwneud cais.

- **Holiadur ar gyfer ymgynghoriad ar y tir** – i'w anfon at fusnesau a thai o fewn ffin ddiffiniedig yr ymgynghoriad.
- **Gwefan** – bydd gwefan Atlantic Array yn cynnwys gwybodaeth gyfredol ar y prosiect a'r broses ymgynghori. Bydd tudalennau hefyd yn cael eu creu i bobl gynnig sylwadau, syniadau ac adborth.
- **Cylchlythyrau/Taflenni Prosiect** – i'w hanfon at y rhai hynny sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad. Bydd y rhain hefyd yn cael eu gosod ar wefan y prosiect ac ar gael i'r gymuned ehangach trwy amryw o fannau cymunedol.
- **Dulliau cysylltu** – cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost;

Atlantic Array, RWE npower renewables,
Auckland House, Lydiard Fields,
Great Western Way, Swindon,
Wiltshire, SN5 8ZT

Ebost – atlanticarray@npower-renewables.com

- **Y Cyfryngau** – bydd datganiadau i'r wasg/hysbysebion yn cael eu cynhyrchu yn ystod y broses cyn gwneud cais yn cynnwys manylion y broses ymgynghori (trwy gyhoeddi'r Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol) a'r arddangosfeydd cyhoeddus.
- **Arddangosfeydd cyhoeddus** – bydd y rhain yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol yng ngogledd Dyfnaint a Cymru (i'w hadolygu a'u cytuno gyda'r awdurdodau lleol perthnasol). Byddant yn arddangosfeydd agored ble gall pobl weld manylion y cynigion am y fferm wynt (ar y tir ac yn y môr), siarad gyda'r tîm prosiect a nodi eu sylwadau. Bydd y lleoliadau a'r dyddiadau'n cael eu hysbysu yn y wasg leol ac ar wefan Atlantic Array.
- **Ffurflenni sylwadau** – bydd y rhain ar gael yn yr arddangosfeydd cyhoeddus a hefyd ar y wefan i bobl allu nodi eu safbwynt ar unrhyw adeg.
- **Ymrwymiad gwleidyddol** – bydd RWE NRL yn ymgymryd â sesiynau diweddaru a briffio i wleidyddion lleol ynglŷn ag elfennau ar y tir ac yn y môr y prosiect.
- **Briffio Cynghorau Tref, Plwyf a Chymunedol** – bydd RWE NRL yn gwahodd y cynghorau tref, plwyf a chymunedol perthnasol i gyfarfodydd i'w briffio ar y prosiect a derbyn unrhyw adborth sydd ganddynt ar faterion sy'n effeithio ar eu meysydd cyfrifoldeb nhw.
- **Cyswllt parhaus gyda defnyddwyr morol** – sefydliadau ac unigolion i'w nodi a'u cynghori gan awdurdodau arfordirol a'r Sefydliad Rheoli Morol. Bydd y grŵp hwn yn derbyn cylchlythyrau ac yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd ar bynciau penodol.
- **Cyflwyno dogfennau'n gyhoeddus** – bydd y dogfennau canlynol yn cael eu cyflwyno mewn llyfrgelloedd lleol, swyddfeydd y cyngor ac fe fyddant ar gael ar wefan y prosiect:
  – Y Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol
  – Holiaduron a chylchlythyrau
  – Unrhyw hysbysebion eraill yn ymwneud â'r cynnig am y fferm wynt

7. Pwy fyddwn ni'n ymgynghori â nhw?

Ymgynghori ar y tir

- Preswylwyr lleol a busnesau gyda chod post o fewn ffin 2km ymgynghori'r is-orsaf a/neu o fewn y coridor cebl 1 km
- Aelodau o Senedd Prydain ac Ewrop gydag etholiadau sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn unrhyw un o'r ffiniau ymgynghori
- Cynghorwyr Dosbarth a Sirol gyda wardiau/dosbarthiadau sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn unrhyw un o'r ffiniau ymgynghori neu o fewn Parth Gweledydd Damcaniaethol (PGD) 10km yr is-orsaf. Offer cyfrifiadurol yw PGD sy'n canfod maint gweledydd tebygol (neu ddamcaniaethol) datblygiad.
- Cynghorau Tref a Phlwyf sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn unrhyw un o'r ffiniau ymgynghori neu o fewn y PGC 10km

Bydd RWE NRL hefyd yn cysylltu gyda'r awdurdodau lleol yng ngogledd Dyfnaint a Cymru i weld a oes unrhyw grwpiau anodd eu cyrraedd o fewn y ffiniau ymgynghori hyn y bydd angen ymgynghori neu ymrwymo â nhw mewn ffordd wahanol.

Ymgynghori yn y môr

- Yr holl grwpiau a nodir yn yr ymgynghori ar y tir fel bo'n addas a;
- Pobl sy'n defnyddio'r môr a'r arfordir at ddibenion hamdden a masnachol yn ac o amgylch ardal y fferm wynt arfaethedig
- Cymunedau y mae ffin eu hawdurdod lleol o fewn y PDG yn y môr.

Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried – y rhai gan bobl sy'n byw ger y safle a'r rhai gan bobl sy'n byw y tu hwnt i'r ardal hon.

8. Gwybodaeth bellach

Ceir rhagor o wybodaeth gefndir am gynlluniau ymgynghori RWE NRL yn y ddogfen 'Information for the Atlantic Array Offshore Wind Farm pre SoCC' sydd ar gael ar ein gwefan – www.npower-renewables.com/atlanticarray